



GENERATION EARTHSHOT

CANLLAW I ATHRAWON

Diolch am fod yn rhan o Generation Earthshot!

Bydd y canllaw hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i helpu myfyrwyr i ymuno â chenhadaeth Gwobr Earthshot: i ddarganfod y datrysiadau gorau i helpu i drwsio ein planed.

Gan gymryd ysbrydoliaeth gan enillwyr Gwobr Earthshot, gallwn feithrin creadigrwydd cynhenid pobl ifanc a'i sianelu tuag at ddatrys ein heriau amgylcheddol mwyaf, gan feithrin optimistiaeth a hyder yn eu gallu i newid y byd er gwell.

Beth?	Pwy?	Ble?	Pryd?	Sut?
Pecyn cymorth i athrawon gyda chyfarwyddiadau a thafenni gwaith i helpu myfyrwyr i ddysgu sut i ddatrys problemau amgylcheddol yn greadigol.	Ar gyfer addysgwyr myfyrwyr 10 oed a hŷn a hoffai feddwl am syniadau i drwsio ein planed.	Mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill, ledled y byd. Mae'r adnoddau hyn ar gael mewn sawl iaith.	Gallwch gymryd rhan drwy gydol y flwyddyn. Bydd Seremoni Wobr Gwobr Earthshot yn cael ei darlledu'n fyd-eang unwaith y flwyddyn.	Lawrlwythwch y pecyn cymorth a'i ddefnyddio i gynnal gweithgareddau datrys problemau a syniadau pwrpasol ar draws sawl maes cwricwlwm.

Y pecyn cymorth

Mae hwn yn cynnwys canllawiau y gellir eu lawrlwytho ar gyfer pob cam ym mhroses Generation Earthshot, a thafenni gwaith i helpu myfyrwyr i drefnu eu syniadau. Mae 4 cam i'r broses:

Cam	Amcan	Adnoddau
Cyflwyno Gwobr Earthshot a Generation Earthshot	Rhannwch y syniad y tu ôl i Wobr Earthshot gyda'r myfyrwyr a'u cyffroi am ymuno.	Pecyn Sleidiau Gwasanaeth – Fideo 2 funud Generation Earthshot
Y Cam Problemau	Dewch o hyd i'r lluniau o'r Ddaear a helpwch y disgyblion i ddiffinio'r broblem maen nhw'n dymuno ei datrys.	Canllaw i Athrawon 5 fideo Earthshot 2 x taflen waith
Y Cam Syniadau	Helpwch y myfyrwyr i feddwl am syniadau mewn ffordd drefnus, yna eu gwerthuso a'u mireinio.	Canllaw i athrawon 5 x gweithgaredd meddwl am syniadau 2 x taflen waith
Y Cam Datrysiadau	Mae myfyrwyr yn ymgymryd â rolau, yn cyflwyno syniadau ac yn eu rhannu ag eraill. Yna bydd y myfyrwyr yn myfyrio ac yn nodi eu camau nesaf.	Canllaw i Athrawon 5 x gweithgaredd seiliedig ar rôl 5 x taflen waith



CWESTIYNAU/ATEBION

Pa mor hir mae'n ei gymryd?

Mae'r fframwaith yn hyblyg, felly gellir cwblhau pob un o'r 4 cam o fewn 1 awr. Gelwir hyn yn "sbrint" gan fod pob cam yn cael ei hwyluso'n gyflym. Mae myfyrwyr yn teimlo'n llawn egni ac yn obeithiol bod creu datrysiadau i drwsio ein planed yn bosib, a'u bod yn gallu cyfrannu.

Os oes gennych chi fwy o amser, gallwch neilltuo gwers lawn neu fwy i bob cam. Yn y canllaw i bob cam, ceir awgrymiadau ar gyfer sut i ymestyn y gweithgareddau a threiddio'n ddyfnach iddynt.

Ar ôl i chi orffen, cofiwch rannu eich gwaith drwy wefan Generation Earthshot a thrwy ddefnyddio'r hashnod #GenerationEarthshot ar y cyfryngau cymdeithasol!

Ond beth yw Gwobr Earthshot?

Gwobr Earthshot yw'r wobwr fwyaf uchelgeisiol a mawreddog o'i math – mae wedi'i llunio i gymell newid a helpu i drwsio ein planed dros y deng mlynedd nesaf. Bydd pum gwobr gwerth miliwn o bunnoedd yn cael eu dyfarnu bob blwyddyn am y 10 mlynedd nesaf, gan ddarparu o leiaf 50 o ddatrysiadau i broblemau amgylcheddol mwyaf y byd erbyn 2030.

Beth yw 'Earthshot' ac o ble mae'n dod?

Mae'r gair 'Earthshot' wedi ei ysbrydoli gan ymgyrch 'Moonshot' John F. Kennedy, Arlywydd yr Unol Daleithiau, a unodd filiynau o bobl gyda'r nod o roi dyn ar y lleuad. Mae Gwobr Earthshot yn canolbwyntio ar bum 'Earthshot' – nodau syml ond uchelgeisiol ar gyfer ein planed sy'n canolbwyntio ar natur, aer, cefnforoedd, gwastraff a'r hinsawdd.

Gallwch wyllo esboniad llawn yma: <https://www.youtube.com/watch?v=bymiMNa6QJk&t=54s>

Beth yw Generation Earthshot?

Mae Generation Earthshot wedi cael ei greu i alluogi plant 10-15 oed i ymgysylltu'n ddyfnach â'r syniad o Wobr Earthshot. Mae'n darparu pecyn cymorth i athrawon y gellir ei lawrlwytho er mwyn eu helpu i ysbrydoli myfyrwyr ym mhob man i ddatblygu syniadau mawr i fynd i'r afael â phum nod Earthshot.

Mae plant a phobl ifanc yn ymwybodol bod angen mynd i'r afael â'n heriau amgylcheddol ar frys, ond maen nhw'n gallu cael eu llethu. Drwy Generation Earthshot, rydyn ni eisiau ennyn gobaith y gallwn oresgyn yr heriau mawr hyn.

Wrth wraidd y pecyn mae fframwaith ar gyfer syniadaeth (y broses o ffurfio syniadau) a datrys problemau'n greadigol, a'r cyfle i rannu syniadau ag eraill. Mae'r fframwaith yn dilyn egwyddorion ystyried dylunio, sydd wedi cael eu symleiddio i fod yn fwy hygyrch. Nid oes angen unrhyw brofiad addysgu arbenigol, a gellir cymhwyso'r egwyddorion ar draws gwahanol feysydd o'r cwricwlwm – o wyddoniaeth a'r dyniaethau i'r celfyddydau.



Mae dysgu am syniadaeth a datrys problemau'n greadigol yn bwysig dros ben ond maen nhw'n cael eu hanwybyddu'n aml. Byddan nhw'n sgiliau allweddol yn y gweithle yn y dyfodol a gellir eu meithrin ym mhob myfyriwr ac ystafell ddosbarth ni waeth pa adnoddau sydd ar gael.

Beth yw pwrpas y dysgu hwn?

Dyweddodd y diweddar Syr Ken Robinson, un o addysgwyr mwyaf poblogaidd y byd:

“Mae pob un ohonom yn cael ein geni gyda galluoedd anhygoel, naturiol a chreadigol. Mae plant yn dangos pob un ohonyn nhw. Rydyn ni i gyd yn eu teimlo. Ond rydyn ni'n teimlo eu bod nhw'n llithro oddi wrthym wrth i ni fynd yn hŷn”

Mae astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd yn 2018 gan Dr George Land a Beth Jarman ar ran NASA wedi cadarnhau hyn yn empirig. Canfu eu hastudiaeth o 1,600 o blant:

Pan roddwyd problem i blant 5 oed lle roedd yn rhaid iddynt feddwl am ddatrysiad dyfeisgar ac arloesol, profodd 98 y cant o'r plant 5 oed ar lefel “athrylith”. Pan roddwyd yr un broblem i bobl ifanc 15 oed, dim ond 12% o fyfyrwyr a gafodd eu profi ar lefel “athrylith”, ac roedd y nifer hwnnw'n disgyn i ddim ond 2% ymysg oedolion.

Daethant i'r casgliad canlynol:

“Nid yw addysg draddodiadol yn rhoi digon o werth ar arloesi a meddwl yn entrepreneuriaidd – mae ein system hyd yn oed yn gwanhau'r athrylith creadigol y cawsom ein geni ag ef”.

Wrth bwysu a mesur systemau addysg, mae Fforwm Economaidd y Byd wedi honni bod:

“Anghysondeb mawr rhwng y sgiliau y mae ein systemau addysg yn eu meithrin ac anghenion cymdeithas.”

Ond beth yw'r anghenion hynny? Wrth i'r Tywysog William gyflwyno Gwobr Earthshot, disgrifiodd:

“Mae'r Ddaear ar drobwynt tyngedfennol ac rydyn ni'n wynebu dewis enbyd: gallwn naill ai barhau i niweidio ein planed i lefel anadferadwy, neu gallwn ni gofio ein pŵer unigryw fel bodau dynol a'n gallu parhaus i arwain, arloesi a datrys problemau”

Fel athro, gallwch helpu pobl ifanc i ymateb i'r heriau a nodir gan Wobr Earthshot drwy helpu i feithrin athrylith greadigol myfyrwyr. Bydd defnyddio pecyn cymorth Generation Earthshot yn eich helpu i ddechrau arni.



Sut ydw i'n gallu manteisio i'r eithaf ar y profiad dysgu hwn gyda fy myfyrwyr?

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio Earthshot, rydyn ni'n eich annog i feddwl amdanoch chi eich hun fel hwylusydd. Rydych chi'n helpu myfyrwyr i ddysgu sgiliau newydd, ac wrth feddwl am syniadau, nid oes y fath beth ag ateb anghywir. Ceisiwch ddal eich hun yn ôl a bod yn oddefgar o atebion anghonfensiynol. Dylech ganiatáu i'r myfyrwyr darfu neu fynd ar drywydd chwilfrydig o bryd i'w gilydd. Ewch ati'n frwd i annog cwestiynau oherwydd maen nhw'n helpu i ddechrau sgysiau gwahanol. Wrth wneud hynny, byddwch yn sbarduno mwy o syniadau a fydd yn eich synnu chi a'ch myfyrwyr. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gynnal sesiynau meddwl am syniadau effeithiol yn 'Y Cam Syniadau: Canllaw i Athrawon'.

Efallai y gwelwch hefyd fod myfyrwyr yn bryderus ynghylch goblygiadau'r Earthshots. Mae hyn yn naturiol, ac efallai y bydd angen i chi neilltuo amser i gydnabod hyn, fel bod myfyrwyr yn sylweddoli nad ydyn nhw ar eu pen eu hunain. Bydd defnyddio fframwaith Generation Earthshot yn eich helpu i ymateb i'r pryderon hyn. Er enghraifft, yn y 'Cam Problemau' pan fydd myfyrwyr yn ymdrin â'r broblem yn lleol, byddwch yn eu helpu i deimlo'n fwy cysylltiedig â'r materion. Yn y 'Cam Syniadau' pan fydd myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd i feddwl am syniadau, bydd y cydweithio, nifer y syniadau a'u potensial yn creu gobaith yn hytrach nag ofn.

Ac yn olaf – os ydych chi'n chwilio am fwy o ysbrydoliaeth ar unrhyw adeg, **ewch â'r myfyrwyr allan i'r awyr agored**. Anogwch y myfyrwyr i chwilio am ddatrysiadau ym myd natur y gallan nhw eu defnyddio gyda phroblemau eraill. Byddan nhw'n teimlo mwy o empathi â'u byd naturiol ac yn gwerthfawrogi'r hyn y mae'n ei gynnig i ni.



Ai cystadleuaeth yw Generation Earthshot? Sut ydw i'n gallu gwobrwyo fy myfyrwyr?

Dydy Generation Earthshot ddim yn gystadleuaeth ar hyn o bryd, ond rydyn ni'n gwerthfawrogi'r gwaith y mae eich myfyrwyr yn ei wneud a byddem wrth ein boddau'n ei weld. Gallan nhw ei gyflwyno drwy wefan Generation Earthshot a byddan nhw'n cael tystysgrif a llythyr o ddiolch gan Wobr Earthshot. Bydd cyfleoedd i arddangos syniadau myfyrwyr, felly os oes unrhyw un yn chwilio am ysbrydoliaeth, gallan nhw weld beth mae eu cyfoedion wedi bod yn ei wneud ledled y byd.



Beth arall allwn i ei wneud?

Ar ôl i chi gwblhau'r fframwaith, gallwch ddechrau eto gan ddefnyddio Earthshot gwahanol fel man cychwyn a gall myfyrwyr ymgymryd â rôl wahanol i arddangos datrysiadau. Yn hyn o beth, mae 25 o lwybrau gwahanol drwy'r fframwaith. Bydd myfyrwyr yn dod yn arbenigwyr ar feddawl am syniadau yn gyflym iawn!

Ar ddiwedd pob cylch, gofynnwch i'r myfyrwyr fyfyrrio ar eu dysgu a chydabod pa mor bell maen nhw wedi dod. Gallwch ofyn iddyn nhw:

- Beth wnaethon nhw ei fwynhau fwyaf a beth fydden nhw'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
- Sut maen nhw'n teimlo am syniadau a grëwyd? Beth sydd wedi eu synnu?
- Beth fydden nhw'n hoffi ei wneud nesaf?

Os yw syniad wir yn dal dychymyg myfyrwyr, gallent ddod ag ef yn fyw drwy sefydlu tîm prosiect, datblygu cynllun gweithredu a dechrau arni. A yw'n rhywbeth y gallai eich ysgol gyfan gymryd rhan ynddo? Beth am y gymuned ehangach? Allech chi godi ymwybyddiaeth a gweithio gyda phobl leol i helpu'r syniad i fynd ymhellach? Allech chi gysylltu â sefydliadau lleol neu'r llywodraeth a gofyn iddyn nhw eich cefnogi? Byddwch yn uchelgeisiol a gall pethau gwych ddigwydd!



Beth bynnag mae eich myfyrwyr yn ei wneud, byddem wrth ein bodd yn gweld eu gwaith. Rhannwch y gwaith gyda ni drwy wefan Generation Earthshot a thrwy ddefnyddio'r hashnod #GenerationEarthshot ar y cyfryngau cymdeithasol.

A chofiwch annog myfyrwyr i wyllo seremoni wobrwyo flynyddol Gwobr Earthshot! Gallwch gael gwybod sut mae gwneud hyn yn earthshotprize.org. Ewch ati i gynnal parti gwyllo yn yr ysgol neu anogwch y myfyrwyr i drafod y syniadau buddugol yr oedden nhw'n eu hoffi fwyaf.

Bydd yr holl enillwyr wedi dechrau ar eu taith gyda syniad, felly anogwch y myfyrwyr i gredu y gallen nhw ennill rhyw ddiwrnod hefyd!